



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwasanaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol Dyddiad cau: 02.04.18

Enw:	<i>Catherine Phillips, Swyddog Materion Cyhoeddus Plant a Phobl Ifanc</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad ebost:	<i>CatherinePhillips@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif Ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma farn:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Am Cymorth i Ferched Cymru

Fel Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru i aelodau sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i 24 o wasanaethau arbenigol annibynnol yn y sector sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o ddarpariaeth rhwydwaith yn y DU.

Fel sefydliad ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i orosywyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth ddatblygu asesiadau anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus a gyflwynwn i'n haelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod wasanaethau â datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategol perthnasol ac annog cyd-ymarfer addawol yn y sector; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflawni ymarfer addawol yn y sector; darparu cymorth gyda materion polisi ac ymarfer, ac adroddiadau dadansoddi data

¹ Ein haelodaeth sef 24 o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gyflynu a'i integreiddio: *Aberconwy DAS, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (CAHA), Cymorth i Ferched, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndwr, Gorwel (Grwp Cynefin), Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn, New Pathways, Cymorth i Ferched Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot & Afan, Cymorth i Ferched RCT, Canolfan Cymorth Cam-drin Rhywiol a Thrais (Gogledd Cymru), Merthyr Tudful Diogelach, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys Prosiect Dyn), Stepping Stones, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold (Cymorth i Ferched Llanelli gynt), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru.*

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |

E-bost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau, strategaeth a chomisiynu.

Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Bwysig sydd, er enghraifft, yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu pant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chyflwyno rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota'r Gwasanaethau Goroeswyr yn Grymuso ac Addysgu (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu ar wasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau cyhoeddus a chymunedol.

Rydym ni hefyd yn gweithredu Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, sy'n fframwaith achredu i wasanaethau arbenigol cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau ym: <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

Ymateb Cymorth i Ferched Cymru

Fel y corff ymbarél ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, mae ein hymateb yn seiliedig ar ymgynghori yn fewnol gyda'n haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac mae'n adlewyrchu profiadau ar draws pob rhanbarth. Yn ogystal â hynny, rydym yn ymgynghori gyda goroeswyr cam-drin drwy brosiect SSEdS Cymorth i Ferched Cymru (Gwasanaethau Goroeswyr yn Grymuso ac Addysgu).

Mae ymateb Cymorth i Ferched Cymru yn ymwneud yn bennaf ag amddiffyn plant rhag pob math o drais yn y cartref ac atgyfnerthu arfer da a chanllawiau i rieni er mwyn codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

Cwestiwn 1:

1. Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol ac atal y defnydd o gosb gorfforol yn helpu i gyflawni'r nod polisi a nodwyd o amddiffyn hawliau plant?

1.1 Pan ofynnodd Cymorth i Ferched Cymru i aelodau a goroeswyr p'un a oedden nhw'n credu y bydd y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol ac atal y defnydd o gosb gorfforol yn helpu i gyflawni'r nod polisi a nodwyd o amddiffyn hawliau plant, roedd 100% o'r ymatebion yn gadarnhaol. Er enghraifft, nododd un gwasanaeth arbenigol:

"Nid oes angen taro na chosbi plant yn gorfforol. Mae gennym gyfreithiau sy'n amddiffyn oedolion rhag hyn felly pam ddylai plant gael eu trin yn wahanol?"

1.2 Cenhadaeth Cymorth i Ferched Cymru yw 'atal cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod', mae hyn yn cynnwys cam-drin domestig a ddioddefir gan blant a phobl ifanc, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, neu yn eu perthnasoddd agos eu hunain, a thrais yn erbyn menywod ifanc. Mae tua



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

1 o bob 5 o blant wedi cael eu hamlygu i gam-drin domestig². Gall unrhyw fath o drais neu gam-drin yn y cartref effeithio'n sylweddol ar les plentyn a'i allu i fanteisio ar ei hawliau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015³ yn dangos cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru y gallai lles corfforol a meddyliol effeithio ar ddewisiadau ac ymddygiad yn y dyfodol. Cefnogir hyn gan astudiaeth ddiweddar Profiadau Niweidiol mewn Plentynod Cymru (ACE)⁴, sy'n amlygu defnydd o alcohol, defnydd o gyffuriau, ymddygiad rhywiol, carcharu, ysmegu a deiet gwael fel profiadau a allai gyfrannu at les a chyrrhaeddiad negyddol ym mywyd oedolion.

1.3 Mae Cymorth i Ferched Cymru yn deall bod pob cosb gorfforol yn cario'r risg o ddatblygu'n ymosodiad difrifol⁵. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd y ffaith bod y math hwn o ddisgyblaeth yn aneffeithiol ac y gallai felly arwain at gosb mwy difrifol⁶. Mae trais sy'n cael ei gyfeirio at blentyn gan riant fel cosb yn aml yn cael ei gyflawni mewn gwylltineb a rhwystredigaeth, yn hytrach na bod yn arfer rhianta dan reolaeth⁷. At hynny, yr unig fath o drais rhyngpersonol sy'n parhau i fod yn gyfreithiol yw niweidio plant yn fwriadol fel cosb.

1.4 Mae trais yn erbyn menywod a merched ifanc yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywedd⁸. Mae plant a phobl ifanc yn nodi rolau rhyw a stereoteipiau yn bennaf o'r strwythur yn y cartref teuluol, felly mae herio cefnogaeth i ddelfrydau gwrywaidd a benywaidd negyddol yn atgyfnerthu pwysigrwydd y cynnig deddfwriaethol hwn ymhellach.

1.5 Mae grymuso plant a phobl ifanc i ddeall fod ganddynt yr hawl i beidio â chael eu cam-drin yn gorfforol yn ffactor arall i'w ystyried. Nododd un ymatebydd: "Dylai'r cynnig hwn anfon neges gref nad yw trais gan un bod dynol yn erbyn un arall yn dderbyniol". Bydd gorfodi'r neges hon mewn fframwaith cyfreithiol yn galluogi plant i gael syniad mwy clir o'u hawliau a'u hamddiffyniad corfforol o'u hunaniaeth eu hunain hyd yn oed yn y cartref teuluol. Bydd hefyd yn cyfrannu at gydabyddiaeth a dealltwriaeth ehangach am gam-drin domestig, sy'n cysylltu i'r Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015)⁹, yn ogystal â chefnogi'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol¹⁰.

Cwestiwn 2:

² Radford, L et al (2011) Cam-drin Plant ac Esgeulustod yn y DU heddiw. NSPCC

³ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). *Llywodraeth Cymru 2015*

⁴ Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentynod Cymru (ACE): Profiadau Niweidiol mewn Plentynod a'i effaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ym mhoblogaeth oedolion Cymru', *Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015*.

⁵ Amddiffyn yn Gyfartal? Adolygiad o'r dystiolaeth ar gosbi plant yn gorfforol, <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/equally-protected.pdf>, NSPCC 2015.

⁶ Profiadau Rhyngwladol o Gyflwyno 'gwaharddiad ar daro', <http://www.childrenareunbeatablecymru.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/International-experience-of-prohibiting-smacking-17112013.pdf>, *Children are Unbeatable 2013*.

⁷ Robertson, L. Adolygiad llenyddiaeth ar ganlyniadau dulliau disgyblu rhieni, tystiolaeth ar ddulliau rhianta effeithiol a phrofiad rhyngwladol o wahardd cosbi corfforol yn ôl y gyfraith, <http://www.sccir.ac.uk/wp-content/uploads/2017/08/Literature-review-on-outcomes-of-parental-discipline-styles.pdf>, *University of Glasgow, 2017*.

⁸ Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/vawdasv-wales-act-2015?lang=en>, *Cymorth i Ferched Cymru 2016*

⁹ Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/vawdasv-wales-act-2015?lang=en>, *Cymorth i Ferched Cymru 2016*

¹⁰ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). *Llywodraeth Cymru 2015*





Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



2. Yn ychwanegol at ein hymgyrch gwybodaeth a chefnogaeth rhianta cyfredol a oes unrhyw drefniadau cefnogi eraill rydych chi'n credu y dylem eu rhoi ar waith i gefnogi rhieni, gofallyr a gwarcheidwaid?

2.1 Oes, er bod yr ymgyrch gwybodaeth a chefnogaeth rhianta cyfredol wedi derbyn adborth cadarnhaol gan oroeswyr ac aelodau, mae galw ac angen am ddull mwy cynhwysfawr yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r nodweddion croestoriadol rhwng cosbi a VAWDASV.

2.2 Mae gwerth cynnig mynediad digonol i blant a phobl ifanc at addysg perthnasoedd iach wedi cael ei gefnogi gan gyhoeddiad Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach¹¹ a'r Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Fynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru¹², fodd bynnag mae angen rhoi cefnogaeth bellach i fyfyrwyr mewn ysgolion a allai fod yn profi cam-drin domestig neu'n teimlo'n anniogel yn y cartref. Dywedodd un ymatebydd, *"Mae'r mater hwn angen cael sylw mewn ysgolion i alluogi plant i ddatgelu ac yna mae angen gwasanaethau cefnogi i ddelio gydag unrhyw ddatgeliadau."*

2.4 Dylai athrawon gael hyfforddiant digonol i sicrhau eu bod yn nodi ac yn herio ymddygiad treisgar mewn ffordd sy'n cefnogi'r fframwaith cyfreithiol newydd ac felly'n mabwysiadu dull "dim goddefgarwch" tuag at fwlio neu unrhyw fath o gam-drin corfforol. Rhaid i'r dull hwn nodi'r gwahaniaethau'n glir rhwng cosbi plant yn rhesymol ac yn afresymol gan rieni.

2.5 Gellir herio agweddau rhieni a phlant mewn perthynas â chosb resymol a VAWDASV drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a theledu i hysbysebu a thrafod yr Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentynod (ACES) i weithio tuag at newid mewn diwylliant.

2.6 Mae angen i hyfforddiant ac addysg fynd y tu hwnt i rieni a'r ystafell ddsbarth. Mae angen i'r llys teuluol a CAF/CASS gydnabod cosb gorfforol fel ymosodiad, yn enwedig lle mae hanes wedi'i nodi o gam-drin domestig yn y cartref. Fel y nododd un ymatebydd, *"Fe wnaeth fy mhlant brofi eu tad yn fy ngham-drin i, eu mam, yn gorfforol ac roedd eu tad yn 'frwnt' gyda nhw. Erbyn hyn maen nhw'n cael cyswllt drwy orchymyn llys gydag e ac mae'n parhau i'w cosbi'n gorfforol neu'n bygwth gwneud hynny. Pan fyddan nhw gydag e maen nhw ofn ei ymddygiad treisgar. Nid yw hyn yn iawn."*

Dywedodd goroeswyr y gallai diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar y rhiant nad yw'n cam-drin neu'r plant fod yn andwyol iawn pan fydd angen cymorth a chefnogaeth ar oroeswyr a'u teuluoedd yn ystod y broses llys. Os nad yw hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu i'r llysoedd teulu a CAF/CASS gallai hyn niweidio mamau ymhellach a allent gael eu gwneud yn droseddwr oherwydd eu defnydd o gosb gorfforol mewn amgylchedd lle mae llawer o straen a lle mae trais wedi colli ei sensitifrwydd.

2.7 Mae angen i raglenni tramgwyddwyr rhoi sylw i effaith cosb resymol yn y cartref a'r defnydd o drais fel nodwedd gyfredol neu ddisgyblaeth neu rwystredigaeth yn y fframwaith cyfreithiol.

¹¹ Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach, <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/review-healthy-relationships-education>

¹²Canllaw Ymarfer Da: Dull Addysg Gyfan o Fynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru, https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/522394/A-Whole-Education-Approach-to-Violence-Against-Women,-Domestic-Abuse-and-Sexual-Violence-in-Wales.pdf.





Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chellogeith
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yn Nghymru



2.8 Yn olaf mae angen cydnabod y gall rheolaeth gymhellol fod yn ganolog i brofiad plentyn o drais yn y cartref teuluol ac felly mae cydnabod a nodi hyn fel math o gam-drin domestig yn hanfodol i amddiffyn eu hawliau.

Sylwadau Pellach:

3.1 Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i anfon y neges fwyaf clir nad yw cosbi plant yn gorfforol yn dderbyniol. Rydym yn cydnabod nad yw cosbi plentyn yn gorfforol yn rhoi'r sgiliau iddynt y maent eu hangen i ddeall eu hemosiynau neu eu hymddygiad eu hunain mewn ffordd gadarnhaol, gynhyrchiol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen am fframwaith cyfreithiol i osod y safonau diwylliannol a chymdeithasol o ran derbyn, a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i nodi camdriniaeth fel VAWDASV yn gynharach yn eu perthnasoedd a'u bywyd fel oedolyn.

Gall Cymorth i Ferched Cymru hefyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar pellach ynghylch y mater hwn os oes angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein hymateb at:

Catherine Phillips

Swyddog Materion Cyhoeddus Plant a Phobl Ifanc

02920 541 551

CatherinePhillips@welshwomensaid.org.uk

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |

E-bost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government